

<b>CYFARFOD:</b>	<b>PWYLLGOR IAITH</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>MEHEFIN 28 2012</b>
<b>TEITL:</b>	<b>CWYNION IAITH</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH</b>
<b>PWRPAS YR ADRODDIAD</b>	<b>CYFLWYNO'R CWYNION DIWEDDARAF I'R PWYLLGOR.</b>

## 1. CWYNION YN ERBYN Y CYNGOR

<b>DYDDIAD</b>	<b>CWYN</b>	<b>YMATEB.</b>
<b>Mawrth 2012</b>	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â Chymraeg gwallus mewn llythyr a dderbyniwyd o'r Adran Prifffyrdd a Bwrdeistrefol mewn ymateb i gŵyn arall	Yr Adran yn ymateb yn llawn i'r gwyn, gan ymddiheuro eu bod wedi tynnu'n groes a disgwyliaidau'r Cynllun Iaith
<b>Ebrill 2012</b>	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â chalendr ail-gylchu dwyieithog, yn datgan dymuniad am i'r Gymraeg a'r Saesneg fod ar wahân	Yr Adran yn ymateb, gan dynnu sylw at ofynion cyhoeddi'r Cynllun Iaith
<b>Mai 2012</b>	Cwynion gan staff ynglŷn â'r Cyngor yn cylchredeg Holiadur Meddalwedd Gogledd Cymru, gyda'r Saesneg yn ymddangos o flaen y Gymraeg	Cynhyrchwyd yr holiadur gan Gyngor Dinbych, ond tynnwyd sylw staff Adnoddau Dynol a Thechnoleg Gwybodaeth at y disgwyl i'r Gymraeg ddod gyntaf yn unol â'r Cynllun Iaith
<b>Mai 2012</b>	Cwyn gan aelod o staff ynglŷn ag hysbyseb am Oruchwyliwr Amser Brecwast nad oedd yn nodi'r angen am sgiliau ieithyddol	Yr Adran Addysg yn ymchwilio'r gwyn, gan ddod i'r casgliad na ddefnyddiwyd y templed cywir: Gellir cadarnhau fod yna ddisgwyliaidau ieithyddol ynghlwm a'r swydd
<b>Mai 2012</b>	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â gohebiaeth uniaith Saesneg yn ymwneud a gwersi nofio	Fel arfer mae'r llythyrau'n cael eu hanfon yn ddwyieithog, ond bu camgymeriad yn yr achos yma: Ail-ddyluniwyd y llythyrau fel fod y Gymraeg a'r Saesneg yn ymddangos gyda'i gilydd

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
<b>Mai 2012</b>	Cwyn gan aelod o staff fod Cynllun Seiclo'r Cyngor yn cynnwys linc at wefan uniaith Saesneg	Roedd y wefan yn gwbl ddwyieithog erbyn ei lansiad swyddogol: Serch hyn, gwnaethpwyd yn glir i'r Gwasanaeth na ddylid tynnu sylw at unrhyw wefan tan mae ar gael yn gwbl ddwyieithog
<b>Mehffin 2012</b>	Cwyn gan aelod o'r cyhoedd (Di-Gymraeg) ynglŷn â neges Gymraeg ar ei beiriant ateb	Mae Gwasanaethau Cymdeithasol a Tai yn edrych i mewn i'r gwyn ar hyn o bryd
<b>Mehffin 2012</b>	Cwyn gan Aelod ynglŷn ag arwyddion uniaith Saesneg ger y gwaith ar Siop-Un-Stop Derbynfaf'r Pencadlys	Gosodwyd yr arwyddion Saesneg gan y cwmni sy'n ymgymryd â'r gwaith yn hytrach na'r Cyngor. Fe'u hatgoffwyd o'r gofyn yn y cytundeb i ddarparu arwyddion dwyieithog ac fe'u gorchmynnwyd i dynnu'r arwyddion

## 2. CWYNIION YN YMWNEUD A CHYRFF ERAILL

DYDDIAD	CWYN	YMATEB.
<b>Ebrill 2012</b>	Cwyn ynglŷn â gohebiaeth uniaith Saesneg gan Dim Rhaglenni Gwledig Llywodraeth Cymru	Adran Economi a Chymuned yn cysylltu â'r Tîm i fynegi eu siom
<b>Mehffin 2012</b>	Cwyn gan staff ynglŷn â chais gan CAF/CASS am ohebiaeth ddwyieithog yn hytrach na Chymraeg	Y Swyddog wedi cysylltu â'r corff yn amlinellu gofynion Cynllun Iaith y Cyngor, ac yn disgwyl ymateb pellach

## 3. MATERION ERAILL

Yn dilyn ymholiadau gan Fenter Iaith Dyffryn Ogwen a Chyngor Tref Pwllheli ynglŷn â datblygiadau masnachol newydd a'u defnydd o'r iaith Gymraeg, bu'r Swyddog Datblygu Iaith a'r Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn cydlynu gyda'r Gwasanaeth Cynllunio ynglŷn ag amodau ieithyddol ac yn cefnogi gohebiaeth yn pwysu ar i gwmnïau roi ystyriaeth lawn i anghenion y Gymraeg.

Cafwyd hefyd gwyn gan Gyngor Cymuned Llanystumdwy ynglŷn â darpariaeth cyfrwng Gymraeg Cymorth i Ddiodefwyr. Cefnogwyd sylwadau'r Cyngor Cymuned gyda llythyr gan y Swyddog Hyrwyddo Iaith at Gymorth i Ddiodefwyr, yn tynnu sylw at natur ieithyddol yr ardal ac yn awgrymu cysylltiadau i'w cynorthwyo i wella eu darpariaeth cyfrwng Gymraeg

Yn dilyn penderfyniad blaenorol, bydd angen trefnu cyfarfod gyda chwmni Bysus Padarn